

Dylunio, cynnal a gwerthuso prosiect ymchwil
(astudiaeth gwers) yn feirniadol gan ganolbwyntio ar
fodel yr athro trawsnewidiol wrth ddatblygu ymarfer
sy'n cael effaith gadarnhaol ar y dysgwr.

	Targed:	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn.
Targed 1:	Dadansoddi ffynonellau academiaidd yn hytrach na dibynnu yn ormodol ar ddyfynnu.	Yn yr aseiniad yma rwyf wedi dadansoddi ffynonellau amrywiol gan ddefnyddio geirfa ddadansoddol yn ogystal â chymharu damcaniaethau.

'Beth yw effaith pwyntiau clod ar ymrwymiad
disgyblion?'

Cyflwyniad a chyd-destun:

Gweithredwyd yr ymchwil mewn partneriaeth â myfyriwr arall a oedd ar ymarfer dysgu mewn ysgol gynradd ger Llanelli a phenderfynwyd arsylwi gwersi ein gilydd yn y nail ysgol a'r llall. Cyfeirir at yr ysgolion hynny yn yr adroddiad canlynol fel ysgol A (lle roeddwn I ar ymarfer dysgu) ac ysgol B (lle lleolwyd fy mhartner yn yr ymchwil). Y maes o dan sylw yma yw dylanwad pwyntiau clod ar ymrwymiad disgyblion mewn gwersi. Penderfynwyd defnyddio system pwyntiau clod gyda Blwyddyn 3 Ysgol A er mwyn gwrthdroi'r ymddygiad ac agwedd negyddol o fewn y dosbarth. Teimlwyd bod defnyddio system pwyntiau clod yn angenrheidiol er mwyn cadw rheolaeth gadarn ar y dosbarth.

Trafodwyd gyda'r mentor dosbarth natur y disgyblion a oedd ym mlwyddyn 3 Ysgol A. Trafodwyd y disgyblion trafferthus, y disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac unrhyw broblemau yng nghartref rhai o'r disgyblion. Dyma oedd y cyfle i ddod i adnabod y disgyblion ac ymgyswddo ag unrhyw broblemau ac anawsterau a oedd ganddynt. Ar ôl y drafodaeth, aethpwyd ati i arsylwi'r dosbarth a gwelwyd bod angen gwobrwyo'r disgyblion gweithgar er mwyn gweld a fyddai defnyddio dull pwyntiau clod yn hybu'r disgyblion eraill i weithio. Penderfynwyd dechrau'r system pwyntiau do-jo gyda'r dosbarth gan addo gwobr i'r cyntaf, ail a'r trydydd o ran nifer y pwyntiau ar ddiwedd y pum wythnos.

Penderfynwyd y byddai ymchwilio i effaith system clod ar ymateb disgyblion yn fuddiol. Ffocws yr ymchwil felly yw 'Beth yw effaith pwyntiau clod ar ymrwymiad disgyblion?'

Trosolwg o'r llenyddiaeth:

Cyfeiria'r astudiaeth ymchwil yma at lenyddiaeth amrywiol sy'n cyfleu safbwyntiau gwrthgyferbyniol, gan fod nifer o athronwyr yn awgrymu barn wrthrychol am y systemau pwyntiau clod. Yn benodol, noda Marshall (2012) bod adnabod ymddygiadau positif o fewn eich dosbarth yn holl bwysig, oherwydd bydd y disgyblion sy'n dangos yr agweddau positif yn hoffi cael eu hadnabod am fod yn ddisgyblion da. Er mwyn profi i'r disgyblion bod eu hymddygiad yn bositif ac yn dda, dywed damcaniaeth Skinner (1938) bod rhoi clod i ddisgyblion yn gallu hybu eraill i ymddwyn yn yr un modd.

Dywed Marshall (2012) bod ennill clod am ymddwyn mewn modd penodol yn cael eu disgrifio fel 'secondary reinforcement' gan Skinner (1938) sy'n arbenigwr ymddygiadol. Pwysleisia'r ymchwil yma fod Skinner yn credu mai natur gynhenid dyn yw hoffi derbyn clod a pheidio â hoffi cael ei gosbi. Awgryma fod y rhai sy'n derbyn clod yn cael eu defnyddio fel arwydd i'r rhai nad sy'n cydymffurfio bod angen iddynt wella eu hymddygiad. Felly, o fewn amgylchedd dosbarth, os yw'r athro yn anwybyddu ymddygiad gwael ac yn clodfori disgybl am ymddwyn yn dda, dywed damcaniaeth Skinner y bydd y disgyblion yn newid eu hymddygiad yn naturiol er mwyn derbyn clod.

Yn ôl Marshall, (2012) awgryma damcaniaeth Skinner bod systemau clod yn gallu cael effaith amrywiol ar ddisgyblion. Cyfeiria at un gwendid posib, sef y duedd i ddisgyblion ymddwyn mewn modd penodol pan fo'r system clod yn weithredol ac yna dychwelyd at eu harferion gwael pan nad yw'r system clod yn cael ei ddefnyddio.

"There is a fine line between reward and bribery. It is important that children do not behave in an acceptable manner only if they are rewarded." (Marshall, 2012:202)

Canfyddiad Marshall yw y dylid ond rhoi gwobr i ddisgyblion wrth iddynt gyflawni rhywbeth arbennig, neu pan fod disgyblion yn gweithio tuag at rywbeth penodol. Caiff gwobrau eu defnyddio er mwyn annog disgyblion i gyflawni gwaith neu ymddygiad da. Mae rhai ysgolion yn defnyddio systemau pwyntiau i ddisgyblion unigol ac eraill yn defnyddio system sy'n ymwneud â'r dosbarth cyfan e.e. gosod botymau mewn jar. Dengys yr ymchwil y dylai athrawon ddefnyddio system clod i wella ymddygiad ac ymdrechion y disgyblion yn yr ysgol. Mae'n broses llwyddiannus os caiff ei gwneud yn y modd cywir, yn ôl Skinner (1938).

Yn debyg i ddamcaniaeth Skinner, honna Grille (2005) bod systemau clodfori yn aneffeithiol dros gyfnod hir.

"In the long term, reward systems are ineffective." (Grille, 2005)

Awgryma ymchwil Grille bod systemau clodfori ond yn dysgu disgyblion i gyflawni un peth da neu ymddwyn mewn un modd penodol er mwyn derbyn clod. Noda fod y systemau yma yn rheoli bodau dynol. Esbonia Grille bod seicolegwyr wedi arbrofi gyda'r un systemau clodfori yng nghyd-destun bodau dynol ac anifeiliaid. Profodd y seicolegwyr fod yr anifeiliaid yn gallu dysgu ymddwyn mewn modd penodol. E.e. llygoden yn rhedeg trwy ddrysfa a morlo yn dysgu sut i gydbwysu pêl ar ei drwyn. Felly, profodd bod system clod, yn gyffredinol, yn dysgu ymddygiad penodol er mwyn derbyn clod.

"On the surface, praise looks marvellous - *the* key to successful children! Scratch this surface, however, and the results look very different." (Grille, 2005)

Gellir cysylltu'r ymchwil uchod gydag arbrawf Pavlov (1902) ar gŵn. Canlyniad yr arbrawf yma oedd bod addysgu neu drin anifeiliaid i ymateb mewn modd penodol pan fo gwrthrych penodol o gwmpas:

When Pavlov discovered that any object or event which the dogs learned to associate with food would trigger the same response.' (McLeod, 2018:70)

Dylid ystyried canfyddiadau Pavlov o fewn cyd-destun byd addysg- gan mai'r un yw'r egwyddor o drin bodau dynol i ymateb mewn modd arbennig er mwyn derbyn pwyntiau clod.

"When the rewards stop, people usually return to the way they acted before."
(Kohn, 1994)

Dywed Grille (2005) bod athrawon sy'n defnyddio system pwyntiau yn ceisio newid y disgyblion i ymddwyn yn y ffordd mae'r athro yn dymuno ac, felly, yn cyfeirio ato fel 'manipulative system'.

Fodd bynnag, pwysleisia nifer o erthyglau bod rhoi pwyntiau clod i ddisgyblion yn annog ymddygiad da ac yn rhoi'r gydnabyddiaeth i'r disgyblion y maent yn ei haeddu. Ond nodir hefyd fod darganfod moddau gwahanol o wobrwyo yn gallu bod yn heriol i athrawon. Wrth ddilyn systemau gwobrwyo yn y tymor hir mae angen amrywio'r technegau yn ôl Skinner, a hynny er mwyn cadw diddordeb y disgyblion ifanc. Felly, wrth gymharu'r datganiad yma gan Skinner gyda safbwynt Grille (2005) gwelir tebygrwydd ym marn y ddau bod y systemau pwyntiau clod ond yn gweithio am gyfnodau byr o amser, ac fel y noda Skinner, rhaid ail gyflwyno systemau newydd yn gyson.

Er dweud hynny, dywed nifer o erthyglau'r gwrthwyneb gan bwysleisio nad yw pwyntiau clod yn effeithiol o gwbl.

"Eventually rewards become expected and their effect is greatly reduced"
(Obsidian, 2015)

Dadleua Kohn (1990), yn debyg i Grille, nad yw pwyntiau clod yn effeithiol gan eu bod yn dysgu unigolion i weithio mewn modd penodol pan fod gwobr ar gael. Ac, felly, yn y pendraw, nid yw'n dysgwyr heddiw yn mynd i ddatblygu'n naturiol os yw'r athrawon yn trin ymddygiad y disgyblion.

"Reward strategies are ways of trying to manipulate someone's behaviour."
(Kohn, 1990)

Felly, gan ystyried barn yr athronwyr a'r arbenigwyr yma am effeithiau systemau clod, penderfynwyd mynd ati i gymhwyso eu barn i'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth ym mron bob ysgol gynradd ac uwchradd.

Methodoleg:

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yw ymchwil astudiaeth gwers - dyma fath o ymchwil a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig yn 2001 gan yr arbenigwr Dudley. Yn ôl ymchwilwyr Stigler & Hiebert (1999) amcan ymchwil astudiaeth gwers yw sefydlu ymchwil gweithredol yn yr ystafell ddosbarth ar bwnc penodol. Mae'r astudiaeth wers yn cynnwys athrawon yn cydweithio i ddysgu gwers benodol, arsylwi'r gwersi hynny ac yna adfyfrio ar y gwersi gyda'i gilydd. Defnyddiodd Stigler & Hiebert (1999) yr astudiaeth yma ar athrawon Japaneaidd er mwyn cymharu safonau uchel cyrhaeddiad addysgol disgyblion yn Siapan â disgyblion yn UDA. Profodd eu hastudiaeth ymchwil i fod yn llwyddiannus ac, felly, mae'r dull astudiaeth gwers nawr wedi cael ei fabwysiadu gan Dudley er 2001. Caiff ei ddefnyddio er mwyn gwella technegau dysgu athrawon.

Dywed Dudley (2014) fod defnyddio astudiaeth gwers yn helpu athrawon i fabwysiadu gwell technegau addysgu a hyrwyddo cynnydd disgyblion mewn pynciau craidd.

Lesson study has been successful in this country to improve teaching techniques and pupil progress in core subjects in primary and secondary schools. (Dudley, 2014)

Hefyd, noda Hargreaves (2012) fod astudiaeth gwers yn cynnwys elfen o gydweithio rhwng athrawon sy'n ceisio datrys problem neu sydd angen gwella dull gweithredu o fewn yr ystafell ddosbarth.

Gwelir bod Dudley (2014) yn pwysleisio taw amgylchedd dosbarthiadau dysgu yw'r amgylchedd gwaith mwyaf cymhleth a dwys i weithio ynddo. Noda ymchwilwyr Japaneaidd fod gwersi yn gyffredinol fel un continwwm dysgu. Gwelir hyn yn y dyfyniad isod.

The Japanese say that 'a lesson is like a swiftly flowing river' (Lewis, 1999)

Pwysleisia Dudley (2011) fod yna nifer o rinweddau i ddefnyddio astudiaeth gwers ar gyfer gwaith ymchwil, megis mae modd i athrawon weld y disgyblion yn dysgu mewn mwy o fanylder nag y gallant mewn gwers arferol o ddydd i ddydd. Mae'n amlygu'r bylchau o fewn dysgu'r disgyblion ac o gymorth i'r athrawon ddarganfod y strategaethau addysgu gorau ar gyfer y disgyblion o dan ffocws. Drwy weithredu'r ymchwil yn y modd yma, bydd yr athrawon yn darganfod strategaethau addysgu sy'n cynorthwyo disgyblion yn y modd mwyaf effeithiol.

Y dulliau o gasglu data a ddefnyddiwyd yn ystod y broses ymchwilio oedd arsylwi grwpiau ffocws, nodiadau adfyfyriol a chyfweliad byr gyda'r disgyblion o dan ffocws. Cynigodd y dulliau yma'r wybodaeth graidd a oedd angen er mwyn dod i gasgliad gyda'r cwestiwn ymchwil, sef, "Beth yw effaith pwyntiau clod ar ymrwymiad disgyblion?". Defnyddiwyd system arsylwi strwythuredig wrth gasglu gwybodaeth o fewn y ddwy ysgol o dan ffocws. Nododd gan Bruner (1990) bod arsylwi'n broses systematig o gofnodi patrymau mewn ymddygiad pobl. Trwy arsylwadau, ceir data craidd a gall yr arsylwadau hyn ffurfio damcaniaethau. Awgryma Bruner (1990) bod arsylwadau yn darparu system o dybiaethau a chredoau. Cofnodwyd yr arsylwadau ar ffurf ysgrifenedig strwythuredig yn ogystal ag ar ddyfais electronig yr ysgol. Casglwyd sylwadau wrth blant drwy ddefnyddio recordiad ar ddyfais yr ysgol. Cynhaliwyd cyfweliad byr gyda'r disgyblion yn gofyn cwestiynau am y wers a'r system pwyntiau clod. Adfyfyriwyd ar y gwersi gan ddefnyddio Model Kolb (Brown, 2017) sef model y cylch dysgu. Seilir y model yma ar brofiad athrawon, sydd wedyn yn cael ei adolygu a'i ddadansoddi, ac wedyn ei werthuso'n systematig mewn pedwar cam. Gwelir isod gamau gweithredu'r model Kolb.

1. Profiad.
2. Adfyfyrio ar y profiad.
3. Dysgu oddi wrth y profiad.
4. Profi - Rhoi'r profiad yn ei le.

Wrth gasglu data rhaid ystyried moddau amrywiol o wneud hyn. Gall y data a gasglwyd fod yn ddata ansoddol a meintiol. Defnyddiwyd y ddau fath o gasglu data yn yr astudiaeth yma. Noda Marshall (2012) bod data ansoddol yn cynnwys casglu data drwy ddefnyddio geiriau. Defnyddiwyd y math yma o gasglu data yn yr astudiaeth yma drwy gyfnewid â 3 disgybl o bob dosbarth. Manteision defnyddio data ansoddol yw mae'r data a gesglir yn hawdd i'w dadansoddi a'i hesbonio. Anfantais defnyddio'r dull yma yw bod y data yn gallu bod yn rhwystr i unigolion ddarllen neu hyd yn oed yn anodd ei ddadansoddi. Yn ogystal â defnyddio data ansoddol, defnyddiwyd data meintiol yn yr astudiaeth. Mae data meintiol yn cynnwys defnyddio cwestiynau lle mae'r atebion yn cynnwys rhifau. Gwelir hyn yn atodiad 4 a 5 wrth edrych ar y canlyniadau ar daflen arsylwi a ddefnyddiwyd yn ystod y wers. Manteision defnyddio data meintiol yn ôl Marshall (2012) yw bod y data yn gallu rhoi

canlyniadau'n gyflym a gellir ei gofnodi mewn ffordd glir. Ond ar y llaw arall, noda Marshall hefyd bod yna ochr negyddol i'r data meintiol, sef nad yw'r canlyniadau'n gallu bod yn ddibynadwy i roi canlyniad dilys iawn i'r astudiaeth ymchwil.

Ystyriaethau Moesegol:

Mae ystyriaethau moesegol yn gysylltiedig â gwneud gwaith ymchwil mewn dosbarth. Er mwyn gallu cwblhau'r astudiaeth yma a'r ymchwil penodol roedd rhaid cwblhau ffurflen foeseg a'i chael wedi'i chymeradwyo gan y tîm ymchwil yn y brifysgol. Cynhwysai'r ffurflen foeseg unrhyw fath o risg allai ddigwydd wrth gwblhau'r astudiaeth gwers a dangos y camau sut i'w hosgoi. Roedd yn sicrhau bod y dulliau o gasglu gwybodaeth yn dderbyniol ac yn sicrhau bod y canlyniadau a gesglir yn cael eu storio mewn man diogel a bod unrhyw ddata craidd yn anhysbys i unrhyw un. O ystyried y camau gweithredol yma a wnaethpwyd cyn dechrau'r astudiaeth, roedd rhaid sicrhau bod y rheolau a nodwyd yn y ffurflen foeseg yn cael eu dilyn wrth ddechrau'r astudiaeth ymchwil. Cyfeiriwyd at BERA a CCUHP fel dogfennau proffesiynol i'w dilyn.

Dadansoddi'r ymchwil:

Cynhaliwyd yr astudiaeth wers gyntaf ym mlwyddyn 3 yn Ysgol A ger Abertawe. Sefydlwyd 'Class do-jo' gyda'r dosbarth ar ddechrau'r tymor fel modd i wobrwyo disgyblion am eu hymdrechion tuag at waith a'u hagwedd yn gyffredinol o fewn y dosbarth. Ar ôl bron tymor o addysgu yn y dosbarth, gwelwyd bod y system pwyntiau clod yn gweithio'n dda i unigolion y dosbarth yma er mwyn eu hannog i ymddwyn yn dda a chwblhau gwaith o fewn amser y wers. Nid oedd y pwyntiau yn gweithio i bob unigolyn, ond, yn sicr, roedd y pwyntiau yn gweithio i'r mwyafrif. Gwelwyd yn y dosbarth bod y disgyblion yn cyffroi wrth ddosbarthu pwyntiau ac yna roedd y disgyblion yn cystadlu am y pwyntiau yn erbyn ei gilydd drwy weithio'n galed i dderbyn pwyntiau. Wrth i'm mhartner arsylwi fy ngwers yn Ysgol A fe arsylwodd hi 3 disgybl yn benodol yn ystod y wers. Nodwyd bod disgybl 1 yn ddisgybl a oedd yn ymateb yn dda ac yn cyfrannu'n gyson yn ystod y wers. Sylwyd hefyd fod y pwyntiau do-jo yn cael effaith cadarnhaol ar y disgybl gan fod ei mynegiant wynebol yn dangos hapusrwydd a chyffro. Roedd gan ddisgybl 2 ymrwymiad isel yn ystod y cyflwyniad i'r wers; roedd hi'n gwrando ond nid oedd yn cyfrannu ac, felly, nodwyd bod y pwyntiau do-jo wedi'i hybu hi i gyfrannu syniadau. Disgybl tawel oedd disgybl 3 a oedd yn dal ati gyda'i waith yn annibynnol. Dywedodd y disgybl yma ei bod hi'n mwynhau derbyn pwyntiau clod a'u bod nhw'n gwneud iddi deimlo'n gyffrous. Felly, wrth ddadansoddi'r nodiadau bras ar y disgyblion o dan ffocws, gwelwyd bod y disgyblion o wahanol natur yn mwynhau derbyn y pwyntiau do-jo a hefyd yn mwynhau'r elfen gystadleuol ynghlwm â'r broses.

Gellir dod i ganlyniad ar ôl darllen erthygl Ministry of Education, Guyana (2016) bod systemau gwobrwyo o fewn yr ystafell ddosbarth yn rhan bwysig o reoli'r amgylchedd dosbarth. Mae'n awgrymu bod systemau gwobrwyo fel pwyntiau clod yn datblygu sgiliau hunan-reoli disgyblion o fewn y dosbarth a hefyd yn nodi bod defnyddio dulliau o glodfori yn helpu i greu awyrgylch ac amgylchedd dysgu cadarnhaol i'r disgyblion ac athrawon. Mae systemau o'r fath yn cael eu defnyddio ar draws y byd.

Nod y wers a arsylwyd oedd creu poster diddorol yn hybu pobl i fwyta'n iach. Felly, yn ystod y wers Gymraeg yma datblygodd y disgyblion sgiliau sut i greu poster diddorol gan gynnwys ffeithiau am sut a pham y dylen ni fwyta'n iach. Cafodd y disgyblion amser i feddwl a thrafod eu syniadau yn ystod y cyflwyniad gan ddatblygu eu sgiliau llythrennedd ac iaith Gymraeg wrth drafod ansoddeiriau a chymariaethau er mwyn codi safon eu hysgrifennu. Cyflawnodd y disgyblion nod y wers drwy greu poster amrywiol a diddorol. Roedd pob un poster yn wahanol gyda rhai disgyblion wedi defnyddio templed poster ac eraill wedi arlunio ar ddarn o bapur plaen. Er bod y poster yn edrych yn wahanol, roedd cynnwys y poster yn cynnwys ffeithiau a brawddegau disgrifio ac yn defnyddio Cymraeg o safon da.

Yn ystod y wers yma atgoffwyd y disgyblion am y pwyntiau do-jo y gallen nhw eu hennill. Arsylwyd bod osgo corfforol y disgyblion wedi newid ac roedd ymrwymiad y disgyblion at y dasg wedi cynyddu. Profwyd hyn wrth weld y disgyblion yn cynnig atebion trwy godi dwylo yn yr awyr yn syth i ateb cwestiynau. Gwelwyd y disgyblion yn y dosbarth yn cystadlu am y nifer fwyaf o bwyntiau ac arsylwyd cyffro'r disgyblion wrth iddynt weld cyfanswm pwyntiau clod eu cyfoedion yn cynyddu. Ond a ydy cynnal cystadleuaeth yn amharu ar addysg y disgyblion?

Yn ôl Woolf (2000) mae system pwyntiau clod unigol yn cael effaith cadarnhaol ar gymhelliant unigolion i weithio'n galed ac, felly, mae allbwn y system wobrwyo yma yn un cadarnhaol i'r unigolyn. Ymhellach, gellir ystyried barn Johnson (2003) bod y system unigol yn gallu achosi problemau o ran creu disgyblion gor-gystadleuol ac, felly, yn amharu ar allu rhai unigolion i weithio ag eraill. Disgrifia Johnson hwn fel 'cystadleuaeth yn erbyn cydweithio'.

Er dweud yr uchod, profodd yr astudiaeth wers gyntaf fod y disgyblion yn mwynhau cystadlu yn erbyn ei gilydd i dderbyn pwyntiau clod. Roedd ymglymiad y disgyblion i'r wers wedi gwella wrth i'r wers fynd yn ei blaen. Cynhwysa'r dosbarth yma o flwyddyn 3 yn Ysgol A nifer o ddisgyblion heriol iawn sy'n ei gweld hi'n anodd canolbwytio ac ymddwyn yn dda; felly, wrth i'r pwyntiau clod gael eu cyflwyno i'r wers gwelwyd y disgyblion yn newid eu ffordd o ymddwyn ac yn cwblhau gwaith er mwyn derbyn pwyntiau clod. Roedd y pwyntiau clod yma'n meddwl llawer i'r disgyblion yn y dosbarth gan fod gwobr i'w hennill ar ddiwedd yr wythnos.

Er mwyn ceisio sicrhau bod yr ymchwil yn brawf teg, cadwyd cynnwys a threfn y wers yr un peth ar gyfer yr astudiaeth wers nesaf. Er dweud hynny, roedd ffocws y wers a'r system pwyntiau ychydig yn wahanol oherwydd y testun a ddewiswyd gan yr ysgol arall. Felly, mewn gwirionedd nid oedd yr astudiaeth yma wedi profi i fod yn brawf hollol deg.

Cynhaliwyd yr ail astudiaeth wers yn nosbarth blwyddyn 4 yn Ysgol B ger Llanelli. Roedd natur ac ymddygiad disgyblion y dosbarth hwn yn hollol wahanol i'r disgyblion o Ysgol A. Roedd y disgyblion yma'n llai trafferthus ac, yn gyffredinol, roedd ganddynt agwedd fwy cadarnhaol at waith yn y dosbarth. Roedd ei system pwyntiau ychydig yn wahanol i'r system yn Ysgol A gan fod rhaid i'r dosbarth gydweithio fel dosbarth cyfan i ennill pwyntiau ac, yna'n cael eu gwobrwyo fel dosbarth. Defnyddiodd yr athrawes yr un nod i'r wers, ond gan newid y ffocws i un o ryfeddodau Cymru, sef Stadiwm y Principality yn hytrach na bwyta'n iach. Felly, roedd y disgyblion o flwyddyn 4 yn creu poster yn annog pobl i ymweld â Stadiwm y Principality. Defnyddiwyd system pwyntiau pompom yn ystod y wers, lle'r oedd y disgyblion yn ennill pompons i roi yn y jar. Unwaith roedd y jar yn llawn, roedd y disgyblion yn ennill amser chwarae ychwanegol ar ddiwedd yr wythnos. Roedd rhaid i'r disgyblion gydweithio fel dosbarth i gasglu pwyntiau pompom er mwyn ennill gwobr.

Dywed Ahlgren et al. (2007) bod systemau gwobrwyo fel dosbarth yn hybu cydweithio rhwng disgyblion gan eu bod nhw'n annog ei gilydd i gyflawni rhywbeth da er mwyn cael allbwn cadarnhaol e.e. derbyn pwyntiau neu wobwr fel tîm. Noda hefyd fod y math yma o wobrwyo a chlodfori yn cynyddu perthynas dda rhwng disgyblion ac, felly, maent yn creu amgylchedd mwy plerusus a chadarnhaol i weithio ynddo.

'When people work together, they help each other.' (Ahlgren et al., 2007)

Er sylw Ahlgren et al. (2007) ni welwyd y disgyblion yn cydweithio i helpu eraill o fewn y dosbarth ac, felly, o ganlyniad i hyn, gellir honni efallai nad oedd y disgyblion yma yn wir ddeall beth oedd ystyr y system pwyntiau pompom o fewn eu dosbarth. Ar y llaw arall mae Berger (2000) yn adfyfrio ar ddarganfyddiadau Snipes (2007) ac yn nodi mai anfantais fwyaf gwobrwyo fel grŵp yw bod rhai unigolion naill ai'n anwybyddu'r 'cydweithio fel tîm' ac,

felly, yn anghofio cyfrannu, neu yn difetha'r wobwr i bawb. Mae un neu'r llall yn rhwystro'r disgyblion sy'n haeddu cael eu clodfori i dderbyn y wobwr. Yr achos gwaethaf y gallai ddigwydd wrth ddefnyddio system fel hyn yw bod pawb yn cael eu gwobrwyo hyd yn oed os nad oedd rhai unigolion wedi cyfrannu ac, felly, ni fydd y disgyblion hynny byth yn dysgu i gyfrannu na gweithio fel tîm.

Gan fod y disgyblion yn cydweithio i ennill y pwyntiau fel dosbarth ni welwyd unrhyw gystadleuaeth rhwng disgyblion, fel y gwelwyd yn Ysgol A. Ond hefyd, ni welwyd disgyblion yn annog ei gilydd i weithio'n galed i ennill pwyntiau. Gellir cloriannu nad oedd pawb yn y dosbarth yn gweithio mor galed â phosib. Arsylwyd y wers yn Ysgol B a chanolbwyntiwyd ar dri disgybl yn benodol, ond hefyd cadwyd golwg ar weddill y dosbarth o dan sylw gan fod y system pwyntiau clod yma'n gofyn am gyfraniad gan bawb. Roedd disgybl 1 yn ffocysu ac yn gwrando ar y wers, ond nid oedd yn cyfrannu. Gweithiodd yn annibynnol i gyflawni'r dasg ac ar ôl ennill pwynt pompom am ei waith aeth ati i ychwanegu mwy o ansoddeiriau a brawddegau i'r gwaith er mwyn derbyn pwynt ychwanegol. Roedd yn ddiddorol arsylwi hwn gan y gwelwyd nifer o ddisgyblion wedyn yn mynd i ddangos eu gwaith i'r athro er mwyn efallai derbyn pwynt fel ag y gwnaeth ef. Roedd gan ddisgybl 2 ymrwymiad uchel yn ystod cyflwyniad y wers ond, yna, wrth ddechrau'r dasg, gostyngodd ei ymrwymiad. A oedd hyn oherwydd bod angen mwy o gymorth arno i gwblhau'r dasg? Roedd y disgybl yma'n hapus i dderbyn pwynt, ond roedd e'n ddifater am dderbyn pwyntiau. Cyfrannodd disgybl 3 yn gyson yn ystod y wers, gan weithio'n galed er mwyn derbyn pwynt pompom. Gwelwyd ymrwymiad y disgybl yma'n codi wrth i'r athro ddechrau dosbarthu pwyntiau. Gweithiodd y system yn dda gan fod pawb ar dasg ac yn cyfrannu'n gyson i'r wers, ond a oedd y system pwyntiau yma'n cael effaith ar bob un dysgwr?

Canfyddiadau:

Roedd y pwyntiau clod wedi cael effaith cadarnhaol ar ymrwymiad y disgyblion i'r wers yn y ddwy ysgol ar y cyfan. Ond ni ellir cadarnhau pa ddull pwyntiau clod oedd orau gan fod y dulliau penodol yma'n gweithio'n dda i'r disgyblion yn y ddwy ysgol ac, yn fy marn i, nid oes dull sy'n sefyll allan gan fod yr holl broses yn ddibynnol ar natur ac ymddygiad y disgyblion. Cafodd dull Ysgol A sef y pwyntiau do-jo, effaith ar y disgyblion yn unigol. Gwelwyd y disgyblion yn newid osgo corfforol a hefyd yn newid emosiwn a meddylfryd wrth weithio. Roedd y gystadleuaeth yn bwysig iddynt ac roedd y disgyblion yn mwynhau gweld pwy oedd ar y brig. Ni welwyd yr effeithiau yma mor amlwg yn Ysgol B. Y rheswm dros hyn oedd bod y disgyblion yn cydweithio gyda'i gilydd i lenwi'r jar gyda phompomau, ac felly, mewn gwirionedd, nid oedd rhaid i bawb gyfrannu at gasglu pwyntiau pompom gan fod cwpl o ddisgyblion o fewn y dosbarth a oedd yn ennill pwyntiau yn aml. Gwelwyd rhai disgyblion yn eistedd yn ôl wrth weithio heb boeni o gwbl am y system pwyntiau. Er nodi hynny, roedd eraill o fewn y dosbarth yn mwynhau derbyn pwyntiau ac, felly, yn gwneud ymdrech i gwblhau gwaith o safon da. Er y gwelwyd y pwyntiau yn cael effaith amrywiol ar ddisgyblion yn Ysgol B, gellid awgrymu na fyddai system casglu pwyntiau fel dosbarth wedi gweithio Ysgol A oherwydd natur ac ymddygiad y disgyblion. Roedd angen system pwyntiau ar y disgyblion yn nosbarth Ysgol A er mwyn helpu cadw rheolaeth ar y disgyblion, a gellid dweud bod dewis defnyddio system pwyntiau unigol yn ddoeth o fewn y cyd-destun hwn.

Casgliadau:

Roedd y system pwyntiau clod a ddefnyddiwyd yn y ddwy ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da'r disgyblion, yn eu hannog i gwblhau gwaith gwych ac yn eu cymell i geisio eu gorau. Yn aml nid y gwaith gorau fyddai yn derbyn pwyntiau o fewn y dosbarthiadau yma, ond y disgyblion a ymdrechodd o fewn y dasg. Mae hyn yn codi cwestiwn diddorol arall yng nghyd-destun yr ymchwil hwn- beth yn union y dylid ei wobrwyo, ai ymdrech neu gyflawniad? Byddai Dweck

(2016) yn dadlau taw gwobrwyo disgyblion sy'n wynebu her y dylid gwneud ac sy'n mwynhau ymdrechu ac yn dysgu o gamsyniadau.

“praise their efforts more than praising their outcome. Praise them when they are making progress through persistence and determination. Never give false praise...Some students who get praised for excellent results may become reluctant to try harder challenges if they think that they won't succeed and so learn to limit their learning” (Beere, 2016:52)

Yn bennaf, ar ôl ystyried y cwestiwn ymchwil “Beth yw effaith pwyntiau clod ar ymrwymiad disgyblion?”, gellir dod i gasgliad bod yr astudiaeth wedi bod yn un llwyddiannus er mwyn gweld yr effaith yr oedd y pwyntiau clod yn cael ar ymrwymiad y disgyblion i weithio o fewn y dosbarth, a phrofwyd bod y systemau pwyntiau clod yn effeithiol iawn i ddisgyblion oedran blwyddyn tri a phedwar. Ond gellir dadlau nad oedd y canlyniad yma yn cael ei gefnogi'n llawn gan lenyddiaeth a barn eraill am y dull.

Gwelir nifer o safbwyntiau gwrthgyferbyniol mewn llenyddiaeth am ba mor effeithiol ac aneffeithiol y gallai effaith y pwyntiau clod yma fod ar ymrwymiad disgyblion. Enghraifft allweddol y gellir cyfeirio ato yw model PBS sef ‘Positive behavioural support’ sy'n fodel ysbrydoledig ymddygiadol. Mae'n ddull o ddarganfod problemau ymddygiadol o fewn y dosbarth. Caiff systemau pwyntiau clod eu gweithredu er mwyn lleihau neu ddileu'r problemau ymddygiad. Mae Knestrict (2014) yn cyfeirio at y weithred yma fel un feichus ac yn system aneffeithiol er mwyn gwir newid problemau ymddygiad o fewn disgyblion. Creda Knestrict bod systemau pwyntiau clod ond yn gweithio ar raddfa tymor byr gan nad yw'r disgyblion yn elwa ar y profiad, ac mae'r system ond yn caniatáu athrawon i reoli disgyblion.

These methods will, at best, provide control over the students but they do little to change the students or allow children to construct meaning behind new behaviours. (Knestrict, 2014)

Pwysleisia Knestrict (2014) bod y model ‘PBS’ yn aneffeithiol oherwydd bod y system ond yn rhoi pŵer i'r athrawon dros gyfnod byr ac, felly, nid yw'r disgyblion yn dysgu pam y maent yn ymddwyn mewn modd penodol a pham fod angen iddynt newid eu hymddygiad. Gwelwyd bod gan Knestrict (2014) ddamcaniaeth ei hun o'r enw Neo Montessori Constructivist Intervention Model (NMCIM). Nid yw'n credu mewn pwyntiau clod oherwydd creda bod angen athrawon i feddwl am achosion ymddygiad disgyblion a bod angen i athrawon siarad ac esbonio i'r disgyblion pam y maent wedi ymateb mewn modd penodol a beth oedd allbwn eu hymddygiad. Felly, mae Knestrict o'r farn:

‘Behaviour change happens within the child. It can not be imposed from the outside in’ (Knestrict, 2014)

Felly, honna nad pwyntiau clod yw'r ateb gan fod y math yma o system yn rhwystro'r cyfathrebu rhwng athro a disgybl.

‘Individual changes happen within a social context and are influenced by much more than engineered rewards and punishments.’ (Knestrict, 2014)

Yn yr astudiaeth hon defnyddiwyd taflenni arsylwi (atodiad 4 a 5) i gofnodi nodiadau a marcio'r tri disgybl o dan ffocws yn ôl eu hagwedd, ymateb ac ymrwymiad Cynigodd y taflenni arsylwi lawer o dystiolaeth a oedd yn ddiangen ar gyfer ein hastudiaeth ac felly nid oedd angen yr holl gwestiynau arnom wrth arsylwi. Felly, mae'n deg dadlau efallai nad oedd angen taflen arsylwi o fewn yr astudiaeth. Un fantais a gafwyd o ddefnyddio'r daflen arsylwi oedd cofnodi'r nifer o weithiau y dosbarthwyd pwyntiau clod yn ystod y wers o dan astudiaeth. Wrth ddadansoddi'r canlyniadau (gweler yr atodiad) gellir dadlau fod y pwyntiau

clod wedi cael eu gor-ddefnyddio o fewn un wers, awr o hyd. Gwelir yn ysgol A sut y cafodd 20 o bwyntiau eu dosbarthu ac, yn Ysgol B, cafodd 23 o bwyntiau eu dosbarthu, sydd yn rhif hael am awr o wers. Ymhellach, er mwyn sicrhau bod y nifer o bwyntiau yn adlewyrchiad arferol, gellid bod wedi ail ymweld â'r dosbarth yn Ysgol B ar achlysur gwahanol a gellid bod wedi dilyn yr un strategaeth yn Ysgol A. Mewn gwirionedd, gellir edrych ar yr astudiaeth hon mewn dwy ffordd. Pwysleisia damcaniaeth ymddygiadol mai pwyntiau clod yw'r strategaeth fwyaf effeithiol er mwyn gwella ymrwymiad disgyblion. Ond, yn bennaf, mae swmp y llenyddiaeth y cyfeirir ato yn pwysleisio bod systemau pwyntiau clod ond yn gweithio ar raddfa tymor byr. Y prif safbwynt a amlygir gan athronwyr yw bod systemau pwyntiau clod ond yn rhoi pŵer i'r athro ac, felly, yn profi i fod yn aneffeithiol yn y tymor hir.

Wedi profiad dysgu tymor byr sef pum wythnos o fewn Ysgol A, gwelwyd bod y system pwyntiau clod wedi bod yn effeithiol iawn i'r disgyblion o fewn y dosbarth. Felly, profwyd bod amcanion tymor byr yn gallu gweithio ac yn gosod sylfaen i'r disgyblion i ddatblygu targedau hir dymor. Ond ni ellir cadarnhau a oedd y system yma'n effeithiol o ran dysgu a datblygu'r disgyblion fel unigolion, neu o ran cael rheolaeth tymor hir dros y dosbarth. Fodd bynnag, roedd y system pwyntiau clod do-jo wedi bod yn effeithiol er mwyn sicrhau ymrwymiad a chynnydd y disgyblion o fewn y gwersi. Wrth gynllunio system clod, dylid ystyried natur y plentyn a'r plant o fewn y dosbarth. Rhaid ystyried a gweithredu'r systemau ar adegau gwahanol. Gall pob system fod yn effeithiol, ond rhaid ystyried y gynulleidfa darged a'r system sydd orau iddynt. (Robinson, et al. 2015)

Argymhellion:

Mae dadleuon yr arbenigwyr am effaith systemau clod yn awgrymu efallai nad yw casgliad yr ymchwiliad yma'n hollol ddilys. Dywed Kohn (1994) nad oes gwerth mewn rhoi pwyntiau clod, ond gall yr astudiaeth hon ddangos bod pwyntiau clod yn cael effaith cadarnhaol ar ymrwymiad disgyblion i gwblhau gwaith. Ar y llaw arall, mae damcaniaeth Skinner (1938) yn nodi bod systemau pwyntiau clod ond yn gweithio mewn system tymor byr ac, felly, nad yw'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion yn y tymor hir. Gan ystyried yr holl ddadleuon, gellir nodi nad oedd y prawf yma'n brawf dilys gan fod yr astudiaeth ond wedi craffu ar ymateb disgyblion mewn dwy wers o fewn dwy ysgol hollol wahanol. Mae casgliad yr astudiaeth ymchwiliad hon yn ddadleuol iawn. Mae'n ymddangos bod y data a gasglwyd yn awgrymu bod y pwyntiau clod yn cael effaith cadarnhaol ar ymrwymiad y disgyblion.

Gellir crynhoi, er mwyn i'r ymchwiliad hon fod yn hollol ddilys, y dylai'r astudiaeth yma fod wedi ei chynnal dros gyfnod hirach o amser. Gwelir, ar ôl dadansoddi'r canlyniadau a chanfyddiadau, y gallai'r rheiny fod wedi amrywio o ddosbarth i ddosbarth, ac o blentyn i blentyn. Efallai na fyddai'r canlyniad wedi bod yr un mor gadarnhaol pe bai'r astudiaeth wedi'i chynnal mewn amgylchiadau cyfatebol dros gyfnod hir o amser.

Llyfryddiaeth:

- Alhgren.A (2007) *Individual verses team based rewards* <https://gupea.ub.gu.se/bitstream/2077/4706/1/06-07-135.pdf> Darllennwyd: 12/02/20
- Allison.S, Tharby.A, Lemov.D (2015) *Making every lesson count*. Wales:Crown Hose Publishing Limited.
- Beere, J (2016)*The Perfect Lesson*. Bancyfelin:Independent Thinking Press
- BERA Educational Research Association (2018) *BERA Ethical Guidelines*, London:BERA
- Brown.N (2007) *Reflective Model According to Kolb* <http://www.nicole-brown.co.uk/reflective-model-according-to-kolb/> Darllennwyd: 31/01/20
- Cherry.K (2019) *The Incentive Theory of Motivation* <https://www.verywellmind.com/the-incentive-theory-of-motivation-2795382> Darllennwyd: 26/01/20
- Dudley.P (2014) *Lesson Study* www.lessonstudy.co.uk uk:Wordpress
- Grille.R (2005) *Rewards and Praise* https://www.naturalchild.org/articles/robin_grille/rewards_praise.html Darllennwyd: 15/02/20
- Hattie.J (2009) *Visible Learning* Oxon:Routledge
- Knestrict.T (2015) *Positive Behavioural Supports* London:BERA
- Kohn.A (1994) *The Risks of Rewards* <https://www.alfiekohn.org/article/risks-rewards/> Darllennwyd: 11/02/20
- Kumar. R (2014) *Research Methodology* London:SAGE Publications
- Lambert.M (2013) *A Beginner's Guide to Doing Your Educational Research Project* London:SAGE Publications
- McLeod.S (2018) *Pavlov's Dogs* <https://www.simplypsychology.org/pavlov.html> Darllennwyd: 10/02/20
- McNiff.J, Lomaz.P, Whitehead.J (2005) *You and Your Action Research Project* Oxford:Routledge
- Meggitt.C, Karmen.T, Bruce.T, Grenier.J (2011) *Children and young people's workforce early learning and child care* Oxon:Hoder
- Ministry of Education, Guyana (2016) *Reward Systems in the Classroom* <https://education.gov.gy/web/index.php/teachers/tips-for-teaching/item/2131-reward-systems-in-the-classroom> Darllennwyd: 14/02/20
- Obsidian Learning (2015) *Pros and Cons of Reward Systems for primary schools* <https://elearninginfographics.com/pros-cons-reward-systems-primary-schools-infographic/> Darllennwyd: 02/01/20
- Robinson.C, Bingle.B, Howard.C (2015) *Your Primary School based Experience*. Northwich:Critical Publishing.
- Siencyn.S (2010) *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed*. Caerfyrddin:Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- Skinner.B.F (1953) *Science and Human behaviour*. New York:Macmillan.

Taylor.W (2012) *Children and young people's workforce*. Essex:Pearson.

TES (2015) *Using Reward Systems in the classroom* <https://www.tes.com/teaching-resources/blog/using-reward-systems-classroom> Darllennwyd: 03/01/20